

cta

community transport
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL



Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych

Fan Fwyd

Cafodd Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych (PGDSDd) ei sefydlu i ddarparu cludiant cymunedol fforddiadwy a gwella mynediad at wasanaethau i drigolion lleol o bob oed, gan gynnwys pobl hŷn neu anabl, yn ardal Edeyrnion yn Sir Ddinbych.

“Gydag amser, mae ein gwasanaeth wedi datblygu ac rydym bellach yn ‘siop un stop’ ar gyfer y gymuned leol,” meddai Margaret Sutherland, y Prif Swyddog. “Rydym yn darparu gwasanaeth galw’r gyrrwr, gwasanaeth bws hyblyg, gwasanaeth pryd ar glud, a chynllun llogi car trydan, ochr yn ochr ag ystod eang o weithgareddau a ddarperir trwy ein canolfan. Er mwyn ehangu ein gwaith, roeddem am brynu cerbyd newydd y gallem ei ddefnyddio fel fan fwyd, gan fynd â phrydau bwyd allan i ganolfannau cymunedol eraill yn ogystal ag ehangu capasiti ein gwasanaeth pryd ar glud.”

Mae gwasanaeth pryd ar glud Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych o fudd mawr i’r gymuned. Mae’n darparu prydau maethlon i bobl wrth iddynt ddod dros salwch neu wella ar ôl cael eu rhyddhau adref o’r ysbyty. “Mae dosbarthu bwyd yn ehangach i ganolfannau cymunedol fel rhan o’n gweithgareddau allgymorth i rai o’r pentrefi mwy anghysbell yn rhoi cymorth hefyd i bobl nad oes ganddynt gyfle i fynd i siopau ac archfarchnadoedd gerllaw,” meddai Margaret. “Trwy ddarparu prydau bwyd iachus, gallwn gyfrannu at iechyd a lles corfforol pobl, a gallai hynny yn ei dro wneud gwahaniaeth rhwng gallu parhau i fyw’n annibynnol gartref a gorfod mynd i ofal preswyl.”

I bobl sy’n byw mewn ardal wledig, cludiant yw un o’r ffactorau allweddol sy’n eu helpu i deimlo eu bod mewn cysylltiad ac yn rhan o’u cymuned ehangach. Mae gwasanaeth cludiant cymunedol PGDSDd yn mynd â phobl o fan i fan, ond mae’n llawer mwy na hynny. “Rydyn ni eisiau gofalu am y person cyfan,” meddai Margaret, “felly rydyn ni’n darparu cwnsela, gweithgareddau iechyd a lles, cymorth cymdeithasol i leihau arwahanrwydd, cymorth ymarferol gyda phethau fel paratoi a darparu bwyd, ac rydyn ni hefyd yn cysylltu pobl â sefydliadau perthnasol eraill pryd bynnag y bo angen.

Rydyn ni’n gweld y gwahaniaeth y mae ein gwaith yn ei wneud o ddydd i ddydd. Daeth un gŵr anabl sydd wedi cael cymorth gennym i gysylltiad â ni gyntaf trwy ei weithiwr cymdeithasol. Nid oedd wedi gadael ei dŷ am 6 mis. Ers i ni ddechrau ei gefnogi, mae wedi bod yn dod i grwpiau cinio a grwpiau cymorth yn y ganolfan a bu newid amlwg yn ei ymddangosiad, roedd ei ddillad yn fwy trwsiadus a’i farf a’i wallt wedi’u tocio.

Dywed ei fod yn isel ei ysbryd o'r blaen ac nad oedd fyth yn gallu mynd allan. Mae wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i gyflwr ei feddwl ac i'w les."

"Datblygwyd prosiect y fan fwyd yn haf 2019," meddai Margaret. "Roedd gennym lawer o gerbydau yn ein fflyd cludiant cymunedol ond nid oedd gennym fan fwyd a allai gadw prydau poeth yn gynnes a chadw prydau oer yn oer, er mwyn helpu i ymestyn ein gwasanaeth cludo i ardal ehangach. Mae PGDSDd yn aelod o CTA, felly clywais am dîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru drwyddyn nhw. Gwnaeth y tîm chwiliad cyllid a gweld bod Morrisons wedi cyfrannu o'r blaen tuag at gostau fan fwyd mewn ardal arall, felly cytunwyd y byddem yn datblygu cais tebyg ar gyfer prynu cerbyd.

Heb y gefnogaeth hon, fydden ni ddim yn gwybod bod Sefydliad Morrisons wedi ariannu prosiectau tebyg. Gyda'r wybodaeth hon, roedden ni'n deall bod gan ein cynnig siawns dda o lwyddo, a dyfarnwyd dros £23,000 i ni. Ers hynny rydyn ni wedi gweithio gyda'n gilydd ar gais am gostau craidd, a daeth hynny â £7,500 i mewn yn ddiweddar gan Sefydliad Garfield Weston."

Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.

